



# **Ymgynghoriad ar y Modelau Cyllido, Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant Cymdeithasol**

## **Dogfen Ymgynghori**

21 Medi 2020 - 7 Mai 2021

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Blwch Post 1 (Gwasanaethau Addysg)

Conwy

LL30 9GN



## **1. Pwrpas yr Ymgynghoriad**

Rydym yn ceisio safbwyntiau ar y gwasanaethau a'r newidiadau posibl i'r ffordd yr ydym yn ariannu cefnogaeth cynhwysiad cymdeithasol ac anghenion dysgu ychwanegol i blant a dysgwyr ifanc Sir Conwy.

Mae'n amserol adolygu'r modelau ariannu cyfredol i sicrhau y gellir parhau i fodloni ei ddyletswyddau statudol, a bod y ddarpariaeth i ddisgyblion yn gadarn, cynaliadwy ac yn deg.

Rydym eisiau eich sicrhau y bydd y gwasanaethau yn parhau i'w darparu os fydd y model ariannu yn newid.

## **2. Cefndir**

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cynnwys y fframwaith cyfreithiol sy'n nodi sut mae awdurdodau lleol yn dyrannu eu gwariant ar addysg mewn ysgolion. Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 (fel maent wedi'u diwygio) yn rhoi mwy o fanylion. Mae'r Rheoliadau yn gofyn bod awdurdodau lleol yn dyrannu gwariant i'r tri cyllideb canlynol (Yr Awdurdod Lleol, yr Ysgol a Chyllidebau Ysgol Unigol). Mae'r ddau faes cyllideb cyntaf yn cael eu cadw'n ganolog a'u gweinyddu gan yr Awdurdod Lleol.

## **3. Y sefyllfa bresennol**

Mewn ymateb i flaenoriaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu canran y cyllid a oedd yn cael ei ddirprwyo i ysgolion i 80% erbyn 2012-2013 ac i 85% erbyn 2014-2015, dirprwywyd cyfran sylweddol o gyllidebau Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynhwysiant Cymdeithasol i ysgolion (wedi'u cadw a'u gweinyddu gan yr Awdurdod Lleol). Cyflawnwyd y dull hwn yn gyntaf ar "drefniant prynu'n ôl" llawn o Wasanaethau gan yr Awdurdod Lleol.

Fel arall, dan y model hwn, gall ysgolion ddewis peidio â phrynu gwasanaethau ADY a Chynhwysiant Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol a gwneud eu trefniadau eu hunain i ddarparu gwasanaethau i'w disgyblion.

Nid yw'r holl gyllid yn cael ei ddirprwyo am resymau effeithlonrwydd, arbedion maint neu arbenigedd, megis y Gwasanaeth Cymorth â'r Synhwyrâu, sy'n darparu cefnogaeth athro ymgynghorol arbenigol i ddysgwyr gyda namau ar eu clyw, golwg ac amryw o synhwyrâu.

Mae'r holl feysydd gwasanaeth sy'n cael eu disgrifio isod bellach yn destun Cytundebau Lefel Gwasanaeth unigol, ac mae gwahanol raddau o drefniant prynu gwasanaethau'n ôl ar draws holl ysgolion cynradd ac uwchradd yr Awdurdod Lleol.

- Gwasanaeth Seicoleg Addysg ac Athrawon Cynhwysiad
- Gwasanaeth Cefnogi Dysgu (Dyslecsia)
- Gwasanaeth Allgymorth Anhwyldeira yn y Sbectrwm Awtistig
- Cymorthyddion Addysgu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Canolfan Addysg Conwy: Y Ddraig Goch
- Canolfan Addysg Conwy: Penmaenrhos
- Canolfan Addysg Conwy: Penrhos Avenue

Argymhellodd y Grŵp Tasg a Gorffen ar Gyllid Addysg a sefydlwyd yn ddiweddar y dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda'r holl fudd-ddeiliaid allweddol ar gynnig i roi'r gorau i ddirprwyo cyllid ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol.

Mewn rhai sefyllfaoedd mae ymgynghori ar fodolau cyllido amgen wedi dechrau drwy brosiectau a sefydlwyd sydd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth Cymorthyddion Addysgu Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Canolfan Addysg Conwy (Y Ddraig Goch, Penmaenrhos ac Penrhos Avenue). Bydd yr wybodaeth ac adborth o'r prosiectau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Er gwybodaeth, pe bai'r cyllid ar gyfer yr holl feysydd gwasanaeth yr ymgynghorir arnynt yn cael eu cadw'n ganolog, byddai'r gyfradd ddirprwyo yng Nghonwy'n newid 3.7% - o 83.5% i 79.8%.

#### **4. Pam mae'r Cyngor yn ymgynghori ar newidiadau rŵan?**

Pennodd y Grŵp Tasg a Gorffen ar Gyllid Addysg, wrth ymateb i ddeddfwriaeth gyfredol a newidiadau iddi, ei bod yn amserol adolygu'r modelau cyllido presennol i sicrhau y gall yr Awdurdod Lleol barhau i fodloni ei gyfrifoldebau statudol, a hefyd yn sicrhau bod darpariaeth i ddisgyblion yn wydn, yn gynaliadwy ac yn deg. Mae gwybodaeth bellach i'r rheswm ein bod yn adolygu'r sefyllfa gyfredol wedi'i gynnwys dan adran 6.

**5. Pwy yw'r budd-  
ddeiliaid ar gyfer yr  
ymgyngoriad hwn?**

|   | Rhieni | Ysgolion | Fforwm<br>Cyllideb<br>Ysgolion | Cadeirydd y<br>Llywodraethwyr | Asiantaethau<br>allanol e.e.<br>SNAP<br>Cymru;<br>BCUHB | GwE  | Swyddogion<br>Awdurdod<br>Lleol |
|---|--------|----------|--------------------------------|-------------------------------|---|------|---------------------------------|
| Gwasanaeth Seicoleg<br>Addysg ac Athrawon<br>Cynhwysiad y Cwricwlwm | Bydd   | Bydd     | Bydd                           | Bydd                          | Bydd  |      | Bydd                            |
| Gwasanaeth Cymorth<br>Addysgu (Dyslecsia)                           | Bydd   | Bydd     | Bydd                           | Bydd                          | Bydd  |      | Bydd                            |
| Gwasanaeth Allgymorth<br>Anhwylderau yn y<br>Sbectwm Awtistig       | Bydd   | Bydd     | Bydd                           | Bydd                          | Bydd  |      | Bydd                            |
| Cymorthyddion Addysgu<br>Anghenion Dysgu<br>Ychwanegol              | Na *   | Bydd     | Bydd                           | Bydd                          | Bydd  |      | Bydd                            |
| Y Ddraig Goch   | Bydd   | Bydd     | Bydd                           | Bydd                          | Bydd  | Bydd | Bydd                            |
| Penmaenrhos   | Bydd   | Bydd     | Bydd                           | Bydd                          | Bydd  | Bydd | Bydd                            |
| Penrhos Avenue  | Bydd   | Bydd     | Bydd                           | Bydd                          | Bydd  | Bydd | Bydd                            |

\* Wedi ymgynghori â rhieni eisoes.

## 6. Gwasanaethau a Ymgynghorir arnynt

### Gwasanaeth Seicoleg Addysg ac Athrawon Cynhwysiad y Cwricwlwm

**Amcanion y Gwasanaeth:** Mae'r Gwasanaeth hwn yn darparu ymgynghoriaeth, cyngor, asesiadau, ymyrraeth seicolegol, hyfforddiant a dyletswyddau Seicoleg Addysg ac Athrawon Cynhwysiad Cwricwlwm Arbenigol sy'n gysylltiedig â'r broses Asesu Statudol.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys tîm o Seicolegwyr Addysg ac Athrawon ADY/Cynhwysiad sy'n gweithio'n agos i gefnogi ysgolion i gyflawni eu swyddogaethau statudol ac anstatudol. Gan sicrhau lles ac anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yng Nghonwy. Mae'r Gwasanaeth yn ymateb i atgyfeiriadau a cheisiadau uniongyrchol am ddarpariaeth y cytunir arni drwy Adolygiadau Data a Chyfarfodydd Cynllunio.

Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer disgyblion dan oed ysgol a disgyblion o oed addysg statudol sy'n mynd i leoliadau cyn yr ysgol ac i ysgolion.

**Pam ein bod ni'n adolygu'r sefyllfa bresennol:** Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cyflwyno mwy o gyfrifoldebau statudol i grŵp ehangach o ddisgyblion. Nid yw'r model dirprwyo presennol ar gyfer y Gwasanaeth hwn yn adlewyrchu'r dyletswyddau statudol sy'n cynyddu.

Rhaid i'r Awdurdod Lleol gadw digon o arian yn ganolog i gyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â holl blant a phobl ifanc Conwy sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (0-25 oed).

Hoffai'r Awdurdod Lleol allu datblygu'r gwasanaeth hwn i ymateb i'r dyletswyddau sy'n newid dan y Ddeddf newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, gan wella a chryfhau'r ymyriadau a'r gefnogaeth a ddarperir i blant, pobl ifanc, eu teuluoedd ac ysgolion. Ar ôl hyn gael ei sefydlu, gellir archwilio ymhellach y posibilrwydd o ddatblygu gwasanaethau y gellir eu masnachu neu eu comisiynu.

#### Y gyfradd ddirprwyo bresennol:

| Cyllid Craidd | Cyllid Dirprwyedig |
|---------------|--------------------|
| 11.3%         | 88.7%              |

## Gwasanaeth Cefnogi Dysgu (Dyslecsia)

**Amcanion y Gwasanaeth:** Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Dysgu'n cynnig gwasanaeth addysgu arbenigol ar gyfer Dyslecsia i blant sy'n wynebu'r anawsterau mwyaf sylweddol o fewn y sbectwm anghenion hwn. Mae'n bosib' diwallu anghenion nifer o blant a phobl ifanc sydd â Dyslecsia yn dda o fewn systemau cymorth ychwanegol yr ysgol ei hun. Fodd bynnag, mae cyfran lai o bobl ifanc yn profi anawsterau sy'n cael effaith sylweddol ar eu mynediad i'r cwricwlwm.

I'r plant hynny sydd angen lefel mwy dwys o gefnogaeth, mae addysgu arbenigol pellach ar gael drwy'r Gwasanaeth Cymorth Addysgu. Gall y gwasanaeth hwn gynnig addysgu arbenigol uwch ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n parhau i brofi anhawster arwyddocaol wrth gaffael a chyfuno sgiliau llythrennedd serch yr ymyrraeth briodol yn yr ysgol dros amser.

**Pam ein bod ni'n adolygu'r sefyllfa bresennol:** Hoffai'r Awdurdod Lleol gyfle i edrych ar y model cyfredol o ddarparu gwasanaeth, gan sicrhau effaith teg, ar sail tystiolaeth ac uchafbwynt ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

Mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod y model ariannu yn sicrhau y gall darpariaeth fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion sy'n newid ar draws y sir, a bod yr arian/ adnodd bob amser yn cael eu cyfeirio at le mae ei angen.

Byddai'r Awdurdod hefyd yn ceisio ymestyn cylch gwaith y cyllid i ddarparu ar gyfer y rhai sy'n profi anawsterau dysgu penodol o ystod eang, gan gynnwys dyscalcwlia, yn ogystal â dysgwyr gyda dyslecsia.

### Y lefel ddirprwyo bresennol:

| Cyllid Craidd | Cyllid Dirprwyedig |
|---------------|--------------------|
| 0%            | 100%               |

## Gwasanaeth Allgymorth Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig

**Amcanion y Gwasanaeth:** Mae'r Gwasanaeth Allgymorth ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig yn cefnogi ysgolion Conwy i ddeall a darparu gwasanaeth i blant a phobl ifanc gydag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig a'r sawl sy'n derbyn asesiad niwroddatblygiadol o'u hanawsterau cyfathrebu cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn ymateb yn uniongyrchol i atgyfeiriadau am gyngor a chymorth sy'n ymwneud â meysydd o angen a nodwyd sy'n gysylltiedig ag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig.

Mae'r Gwasanaeth Allgymorth ar gyfer Anhwylderau Awtistig yn cynnwys tîm o Gymorthyddion Addysgu sy'n gallu darparu cefnogaeth a chynghori i ysgolion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r holl staff cymorth ac addysgu, gan helpu i osod targedau/amcanion priodol a chynghori ar addasiadau amgylcheddol priodol ac ymyriadau penodol fydd yn helpu disgyblion i gyflawni'r amcanion hyn.

**Pam ein bod ni'n adolygu'r sefyllfa bresennol:** Mae'r Awdurdod Lleol yn chwilio am gyfle i ystyried sut y gall ddatblygu continwwm o gefnogaeth a darpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag awtistiaeth. Gan ymateb i'r angen cynyddol a chymhlethdod heriau y mae'r grŵp o ddisgyblion hyn yn eu wynebu yn ystod eu haddysg.

Mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio sicrhau bod continwwm y ddarpariaeth i ddysgwyr gydag ADY yng Nghonwy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn o'r effaith ar ddysgwyr a chanlyniadau gwell.

### Y lefel ddirprwyo bresennol:

| Cyllid Craidd | Cyllid Dirprwyedig |
|---------------|--------------------|
| 0%            | 100%               |

## Cymorthyddion Addysgu Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Amcanion y Gwasanaeth:** Bu i Gonwy fel rhan o'r ddarpariaeth o gymorth ychwanegol i ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ddatblygu'r Gwasanaethau Cymhorthydd Addysgu Cynhwysiad Cymdeithasol a Chynhwysiant Cwricwlwm. Sefydlwyd y Gwasanaethau hyn i gefnogi anghenion disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (Cynhwysiad Cwricwlwm) ac anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad (Cynhwysiad Cymdeithasol).

Mae Cymorthyddion Addysgu Cynhwysiad cwricwlwm yn cefnogi plant a adnabyddir drwy'r Panel Cymedroli Anghenion Dysgu Ychwanegol Conwy sydd angen y gefnogaeth hon i hwyluso eu mynediad at y cwricwlwm. Bydd gan yr holl ddisgyblion Gytundeb Gweithredu Gan Yr Ysgol A Mwy ar gyfer y gefnogaeth hwn, neu fydd Datganiad AAA ar gyfer y plant hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth a chefnogaeth arall mewn lle.

Mae'r categori cyffredinol o angen addysgu ychwanegol y mae'r plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth hon fel a ganlyn:

- Anghenion corfforol/ meddygol
- Anghenion emosiynol/ ymddygiad
- Anhwylder ar y sbectrwm awtistig
- Iaith a chyfathrebu
- Nam ar y clyw/ gweledol
- Anawsterau dysgu difrifol/ canolig

Mae Cymorthyddion Addysgu Cynhwysiad Cymdeithasol yn cael eu defnyddio yn fwy hyblyg ac ataliol Maent yn cael eu symud o gwmpas ysgolion Conwy dan gyfarwyddyd y Rheolwr Cymorthyddion Addysgu/ Arweinydd Gwasanaeth Cynhwysiad Cymdeithasol yn unol â'r angen. Mae'r Gwasanaeth hwn yn ffurfio continiwm o gefnogaeth ar gyfer anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, a chymdeithasol a ddarperir gan y Gwasanaeth Cynhwysiad Cymdeithasol ehangach.

**Pam ein bod ni'n adolygu'r sefyllfa bresennol:** Yn dilyn adolygiad cynharach o'r maes gwasanaeth hwn, roedd yr Awdurdod Lleol wedi ystyried yr opsiynau cynaliadwy i ddarparu cefnogaeth deg, effeithiol ac o ansawdd i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghonwy. Cytunwyd y bydd model clwstwr o ddarpariaeth gwasanaeth



yn cael ei ymlid er mwyn hyrwyddo ymyrraeth gynnar, arferion da ar sail tystiolaeth a chysondeb ar draws y camau trawsnewid.

Mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio sicrhau bod darpariaeth Cymhorthydd Addysgu Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghonwy yn:

- 1) Seiliedig ar dystiolaeth gadarn o effaith ar ddisgyblion a chanlyniadau gwell;
- 2) Yn cael ei gymharu'n gyson a'u hadolygu i sicrhau bod priodolrwydd ac effaith ar gynnydd a chaffael sgiliau, a
- 3) Darparu tîm i bob clwstwr ysgol o Gymorthyddion Addysgu Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n gyson, gyda'r sgiliau ac yn brofiadol, sy'n gweithio ar draws pob cam allweddol ac ysgolion. Cynyddu staff presennol a gweithio dan gyfarwyddyd ALNCO, athrawon dosbarth a phynciau i gefnogi disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy weithredu strategaeth ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Er mwyn gwneud hyn mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu defnyddio'r ymgynghoriad hwn i sefydlu'r model ariannu priodol a chefnogi'r amcanion hynny yn gynaliadwy i symud ymlaen. Mae'r ymgynghoriad ar fodolau cyllido amgen wedi dechrau drwy'r prosiect Cymorthyddion Addysgu ADY yng Nghonwy. Bydd yr wybodaeth ac adborth o'r prosiectau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

#### **Y lefel ddirprwyo bresennol:**

##### **Cymorthyddion Addysgu Cynhwysiad y Cwricwlwm**

| <b>Cyllid Craidd</b> | <b>Cyllid Dirprwyedig</b> |
|----------------------|---------------------------|
| 16.55%               | 83.45%                    |

##### **Cynorthwywyr Addysgu Cynhwysiad Cymdeithasol**

| <b>Cyllid Craidd</b> | <b>Cyllid Dirprwyedig</b> |
|----------------------|---------------------------|
| 33.29%               | 66.71%                    |

## Canolfan Addysg Conwy: Y Ddraig Goch

**Amcanion y Gwasanaeth:** Mae'r Ddraig Goch a'r Gwasanaeth Allgymorth yn darparu cefnogaeth a darpariaeth addysg amgen i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 2 sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad dwys, lle mae eu hanawsterau wedi cael effaith sylweddol ar eu gallu i fynd i ysgol gynradd brif ffrwd.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnig cyngor a chefnogaeth allgymorth i bobl ifanc sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol yn eu hysgolion prif ffrwd.

**Pam ein bod ni'n adolygu'r sefyllfa bresennol:** Mae'r cyllid craidd a'r trefniant prynu'n ôl yn gadael bwlch cyllid i allu cynnal darpariaeth llawn amser i ddiwallu anghenion cyfredol y dysgwyr o fewn yr Awdurdod Lleol. Felly, mae'r Awdurdod Lleol mewn perygl mawr o fynd yn groes i'w ddyletswydd statudol i ddarparu addysg ar wahân i addysg yn yr ysgol.

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol fod mewn sefyllfa i gynnig darpariaeth llawn amser sy'n gallu ymateb i anghenion dysgwyr ar draws Conwy gyfan fel maent yn newid.

Mae'r ymgynghoriad ar fodolau cyllido amgen wedi dechrau drwy'r prosiect Cynhwysiad Cymdeithasol yng Nghonwy. Bydd yr wybodaeth ac adborth o'r prosiectau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

### Y lefel ddirprwyo bresennol:

| Cyllid Craidd | Cyllid Dirprwyedig |
|---------------|--------------------|
| 16.32%        | 83.68%             |

## Canolfan Addysg Conwy: Penmaenrhos

**Amcanion y Gwasanaeth:** Mae Penmaenrhos yn darparu cefnogaeth ac addysg amgen i bobl ifanc sydd ag anawsterau cymdeithasol emosiynol ac ymddygiadol difrifol yng Nghyfnod Allweddol 3, ac y mae'r anawsterau wedi effeithio'n sylweddol ar eu gallu i fynd i ysgol uwchradd brif ffrwd.

**Pam ein bod ni'n adolygu'r sefyllfa bresennol:** Mae'r cyllid craidd a'r trefniant prynu'n ôl yn gadael bwlch cyllid i allu cynnal darpariaeth llawn amser i ddiwallu anghenion cyfredol y dysgwyr o fewn yr Awdurdod Lleol. Felly, mae'r Awdurdod Lleol mewn perygl mawr o fynd yn groes i'w ddyletswydd statudol i ddarparu addysg ar wahân i addysg yn yr ysgol.

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol fod mewn sefyllfa i gynnig darpariaeth llawn amser sy'n gallu ymateb i anghenion dysgwyr ar draws Conwy gyfan fel maent yn newid.

Mae'r ymgynghoriad ar fodolau cyllido amgen wedi dechrau drwy'r prosiect Cynhwysiad Cymdeithasol yng Nghonwy. Bydd yr wybodaeth ac adborth o'r prosiectau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

### Y lefel ddirprwyo bresennol:

| Cyllid Craidd | Cyllid Dirprwyedig |
|---------------|--------------------|
| 13.99%        | 86.01%             |

## Canolfan Addysg Conwy: Penrhos Avenue

**Amcanion y Gwasanaeth:** Mae Penrhos Avenue yn darparu cefnogaeth ac addysg amgen i bobl ifanc sydd ag anawsterau cymdeithasol emosiynol ac ymddygiadol difrifol yng Nghyfnod Allweddol 3, ac y mae'r anawsterau wedi effeithio'n sylweddol ar eu gallu i fynd i ysgol uwchradd brif ffrwd.

Ar ben hynny, mae Canolfan Addysg Penrhos Avenue yn darparu addysg yn y cartref i bobl ifanc nad ydynt yn gallu mynd i'r ysgol o ganlyniad i angen meddygol penodol.

**Pam ein bod ni'n adolygu'r sefyllfa bresennol:** Mae'r cyllid craidd a'r trefniant prynu'n ôl yn gadael bwlch cyllid i allu cynnal darpariaeth llawn amser i ddiwallu anghenion cyfredol y

dysgwyr o fewn yr Awdurdod Lleol. Felly, mae'r Awdurdod Lleol mewn perygl mawr o fynd yn groes i'w ddyletswydd statudol i ddarparu addysg ar wahân i addysg yn yr ysgol.

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol fod mewn sefyllfa i gynnig darpariaeth llawn amser sy'n gallu ymateb i anghenion dysgwyr ar draws Conwy gyfan fel maent yn newid.

Mae'r ymgynghoriad ar fodelau cyllido amgen wedi dechrau drwy'r prosiect Cynhwysiad Cymdeithasol yng Nghonwy. Bydd yr wybodaeth ac adborth o'r prosiectau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

**Y lefel ddirprwyo bresennol:**

| <b>Cyllid Craidd</b> | <b>Cyllid Dirprwyedig</b> |
|----------------------|---------------------------|
| 27.81%               | 72.19%                    |

## 7. Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r canlynol yn ddyddiadau allweddol yn y broses ymgynghori a phenderfynu.

| Camau'r Ymgynghoriad  | Amserlen fras                           |
|---|---|
| <b>Cam Cyntaf:</b> Ymgysylltu gyda'r holl fudd-deiliaid ar wasanaethau presennol a chyllid dirprwyedig.   | Rhwng 21 Medi a 4 Rhagfyr 2020          |
| Cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori cam cyntaf yn crynhoi'r ymatebion.  | 1 Chwefror 2021                         |
| Drwy fforymau presennol (Penaethiaid, Cydlynwyr ADY, GwE, Snap Cymru a Chyllideb Ysgol) ystyried yr adroddiad ymgynghori cam cyntaf a chynigion a dewisiadau ar gyfer Cam 2.  | Rhwng 1 Chwefror ac 12 Mawrth 2021      |
| Cyfnod Ymgysylltu'n dod i ben.  | 12 Mawrth 2021                          |
| <b>Cam Dau:</b> Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol - gyda chyfarfodydd Corff Llywodraethu yn digwydd ar y cam hwn.<br><br>Bydd y cam hwn yn ymgynghori ar unrhyw fodelau ariannu arfaethedig sy'n deillio o'r cam ymgysylltu. | Rhwng 30 Mawrth a 7 Mai 2021            |
| Adborth o'r Ail Gam yr ymgynghoriad ffurfiol i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion.  | Rhwng 25 Mai a 5 Mehefin 2021           |
| Adroddiad ar ddeilliannau'r ymgynghoriad ac unrhyw argymhellion cysylltiedig i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ac Addysg a Sgiliau.   | Mehefin 2021 (i'w gadarnhau)            |
| Adroddiad i Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Adroddiad ar ddeilliannau'r ymgynghoriad ac unrhyw argymhellion cysylltiedig.  | Mehefin/Gorffennaf 2021 (i'w gadarnhau) |
| Cyhoeddi'r Penderfyniad (yn ddibynnol ar ddeilliannau'r ymgynghoriad a chymeradwyaeth y Cabinet).   | Gorffennaf 2021                         |
| Gweithredu newidiadau.  | Ebrill 2022                             |

## 8. Sut ydw i'n dweud fy marn wrthoch chi?

Bydd y cam cyntaf o'r ymgynghoriad yn digwydd rhwng 21 Medi a 4 Rhagfyr 2020, yn cynnwys y dyddiadau hynny. Hoffem glywed eich barn yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben am 4pm ar 4 Rhagfyr 2020.

### Gallwch gymryd rhan trwy:

Gwblhau holiadur yr ymgynghoriad ar lein ar: [www.conwy.gov.uk/ymgyngghoriADY2020](http://www.conwy.gov.uk/ymgyngghoriADY2020)

Bydd copiâu caled o'r ddogfen ymgynghori a holiadur i rieni ar gael ar gais ar gyfer rhieni. I dderbyn copi ffoniwch 01492 575031. Anfonwch yr holiadur wedyn i:

Blwch Post 1 (Ymgynghoriad Gwasanaethau Addysg), Conwy, LL30 9GN.

Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn print mawr, copi sain a braille.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn neu ymholiad ynglŷn â'r ymgynghoriad, anfonwch neges i: [YmgynghoriadADY&CC@conwy.gov.uk](mailto:YmgynghoriadADY&CC@conwy.gov.uk)

## 9. Y Penderfyniad

Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto. Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hasesu a'u cynnwys mewn adroddiad y bydd yr Awdurdod Lleol yn ei ystyried.

Mae'r cam cyntaf o'r ymgynghoriad yn adolygu'r sefyllfa bresennol a bydd yn hysbysu'r newidiadau arfaethedig, a fydd yn cael eu hymgyngghori ar yr ail gam.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ail gam gael ei gwblhau, bydd adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried gan y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau a Chyllid ac Adnoddau'r Cyngor, cyn y caiff ei ystyried gan Gabinet y Cyngor i wneud penderfyniad.

Diolch i chi am roi eich amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Bydd eich ymateb yn cael ei hystyried yn llawn.

Ni fyddwn yn ymateb i'ch adborth yn uniongyrchol, ond byddwn yn llunio crynodeb ar ddiwedd y broses. Bydd hwn ar gael ar ein gwefan [www.conwy.gov.uk/ymgyngghoriADY2020](http://www.conwy.gov.uk/ymgyngghoriADY2020)